Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn Addysg: crynodeb o gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg

Diweddariad 2024

# Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn Addysg: crynodeb o gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg

**Cynulleidfa**
Cyrff addysg sy'n ymwneud â gweithlu cyfrwng Cymraeg neu sydd â diddordeb ynddo ac sy'n datblygu sgiliau cyfrwng Cymraeg y gweithlu addysg gan gynnwys: ysgolion, partneriaethau addysg gychwynnol athrawon (AGA), undebau athrawon, consortia a phartneriaethau rhanbarthol, awdurdodau lleol, Estyn, Cyngor y Gweithlu Addysg, Academi Genedlaethol Arweinyddiaeth Addysgol, y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, darparwyr y Cynllun Sabothol, CYDAG, adrannau Cymraeg prifysgolion, Mudiad Meithrin, Comisiynydd y Gymraeg ac eraill â diddordeb.

**Trosolwg**
Mae'r ddogfen hon yn rhoi diweddariad i 'Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn Addysg: crynodeb o gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg', a gyhoeddwyd yn 2022 ac mae'n cyd-fynd â 'Chynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg'. Mae'r awdurdodau lleol wedi nodi eu bwriad i gynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd er mwyn cyrraedd targedau Cymraeg 2050, ac mae'r ddogfen hon yn rhoi crynodeb byr o sut y bydd cynlluniau awdurdodau lleol yn effeithio ar gapasiti athrawon.

**Camau i'w cymryd**
Er gwybodaeth.

**Rhagor o wybodaeth**
Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:
Is-adran Addysgeg, Arweinyddiaeth a Dysgu Proffesiynol
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: athrawoncc.wmteachers@llyw.cymru

**Copïau ychwanegol**
Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg

**Dogfennau cysylltiedig**
Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg
Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg: dadansoddiad data, 2022 a 2024
Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn Addysg: crynodeb o gynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg, 2022

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

ISBN digidol 978-1-83625-754-7
© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2024
WG50835

# Cynnwys


Cyflwyniad 2

Tabl 1.1: Athrawon cynradd sy’n addysgu neu’n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, Tachwedd 2020 3

Tabl 1.2: Athrawon ysgolion canol sy’n addysgu neu’n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, Tachwedd 2020 5

Tabl 1.3: Athrawon uwchradd sy’n addysgu neu’n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, Tachwedd 2020 7

Tabl 1.4: Athrawon yn ôl awdurdod lleol a gallu yn y Gymraeg, Tachwedd 2020 9

Crynodeb o CSGA awdurdodau lleol a’r goblygiadau o ran capasiti athrawon 10

# Cyflwyniad

Mae’r ddogfen hon yn cyd-fynd â ‘Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg’. Mae’n defnyddio gwybodaeth o Gynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) awdurdodau lleol ar gyfer ehangu darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog i geisio rhag-dybio nifer yr athrawon ychwanegol fydd eu hangen er mwyn cwrdd â’r twf neu nifer yr athrawon y bydd angen datblygu eu sgiliau Cymraeg ymhellach er mwyn symud ysgolion ar hyd continwwm iaith. Mae gan awdurdodau lleol y data o’r Cyfrifiad Blynyddol o’r Gweithlu Ysgolion (CBGY) ar lefel ysgol. Fel yr amlinellir yng ‘Cynllun y gweithlu Cymraeg mewn addysg’, byddwn yn gweithio gydag awdurdodau lleol i wella sut caiff data ei ddadansoddi ar lefel leol er mwyn galluogi targedau gweithlu lleol i gael eu pennu.

Mae’r ddogfen hon yn rhoi diweddariad yn seiliedig ar ddata CBGY 2023 ac adroddiadau monitro CSGA yr awdurdodau lleol a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2024.

Mae tabl 1.1 yn dangos nifer yr athrawon mewn ysgolion cynradd yn 2023 a’r newid ers 2020 oedd yn addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â’r rheini sydd yn gallu addysgu trwy’r Gymraeg ond ddim yn gwneud hynny a’r rheini sy’n addysgu’r Gymraeg yn unig. Mae tabl 1.2 ac 1.3 yn cynnwys yr wybodaeth gyfatebol ar gyfer athrawon mewn ysgolion canol[1] ac uwchradd yn 2023 a’r newid ers 2020 yn ôl eu trefn.

Mae tabl 1.4 yn nodi lefel sgiliau iaith Gymraeg Athrawon fesul awdurdod lleol. Yn yr awdurdodau lleol hynny lle na fydd ysgolion na ffrydiau newydd yn cael eu hagor, ond bydd ysgolion yn symud ar hyd y continwwm iaith, bydd gofyn bod athrawon yn datblygu eu sgiliau iaith er mwyn gallu symud i addysgu fwyfwy trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn felly yn disgwyl gweld newid blynyddol yn nifer yr athrawon sy’n meddu ar sgiliau iaith lefelau canolradd, uwch a hyfedr yn cynyddu dros y cyfnod 10 mlynedd a gall awdurdodau lleol ddefnyddio data lefel ysgol i fonitro a phennu targedau lleol.

---

[1] Mae ysgolion canol yn cynnwys dysgwyr rhwng 3 a4 ac 16 ac18 mlwydd oed

**Tabl 1.1: Athrawon cynradd sy’n addysgu neu’n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, Tachwedd 2023 a’r newid ers 2020**

| Athrawon cynradd | Addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y swydd bresennol | Yn gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn gwneud yn y swydd bresennol | Ddim yn gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg | Yn addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn unig | Cyfanswm |
|---|---:|---:|---:|---:|---:|
| Cymru | **3,105 (▼125)** | **685 (▼65)** | **1,245 (▼85)** | **7,215 (▼205)** | **12,250 (▼480)** |
| Ynys Môn | 255 (▼<5) | * | 0 (▶0) | * | **260 (▼10)** |
| Gwynedd | 435 (▼10) | 0 (▼<5) | * | 0 (▼<5) | **440 (▼10)** |
| Conwy | 235 (▲<5) | 55 (▼<5) | 50 (▼<5) | 95 (▼10) | **430 (▼15)** |
| Sir Ddinbych | 125 (▶0) | 30 (▼<5) | 20 (▲<5) | 210 (▲<5) | **385 (▲5)** |
| Sir y Fflint | 60 (▶0) | 40 (▼20) | 50 (▼15) | 490 (▲10) | **640 (▼25)** |
| Wrecsam | 85 (▼15) | 40 (▲<5) | 50 (▼15) | 440 (▼10) | **615 (▼35)** |
| Powys | 100 (▲<5) | 40 (▲<5) | 70 (▼15) | 285 (▼<5) | **495 (▼15)** |
| Ceredigion | 190 (▼<5) | 30 (▼10) | * | 15 (▶0) | **240 (▼5)** |
| Sir Benfro | 90 (▼10) | 30 (▼10) | 45 (▼20) | 270 (▲10) | **430 (▼30)** |
| Sir Gaerfyrddin | 460 (▶0) | 80 (▼15) | 45 (▲<5) | 205 (▲20) | **790 (▲5)** |
| Abertawe | 145 (▼10) | 40 (▲<5) | 45 (▼45) | 735 (▲50) | **965 (▼<5)** |
| Castell-nedd Port Talbot | 85 (▲<5) | 20 (▼<5) | 25 (▼10) | 375 (▼25) | **505 (▼35)** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 50 (▼<5) | 35 (▼<5) | 175 (▼15) | 315 (▼<5) | **570 (▼25)** |
| Bro Morgannwg | 80 (▼5) | 25 (▼<5) | 85 (▲25) | 435 (▲10) | **625 (▲30)** |
| Rhondda Cynon Taf | 145 (▼10) | 70 (▲10) | 70 (▲10) | 520 (▼80) | **810 (▼75)** |
| Merthyr Tudful | 35 (▼5) | 15 (▼<5) | 10 (▲<5) | 160 (▼35) | **225 (▼45)** |
| Caerdydd | 265 (▼35) | 40 (▼10) | 105 (▲<5) | 1,125 (▼35) | **1,535 (▼75)** |
| Caerffili | 125 (▼15) | 40 (▼5) | 105 (▼15) | 435 (▼15) | **700 (▼55)** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 15 (▲5) | 10 (▼15) | 80 (▲<5) | 105 (▲5) | **210 (▼<5)** |
| **Torfaen** | 55 (▲<5) | 15 (▲15) | 30 (▲5) | 255 (▼35) | **355 (▼15)** |
| **Sir Fynwy** | 30 (▲5) | 10 (▲<5) | 40 (▼<5) | 225 (▼30) | **305 (▼25)** |
| **Casnewydd** | 45 (▼15) | 20 (▼<5) | 145 (▲15) | 515 (▼15) | **720 (▼20)** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu ysgolion

* = ffigurau yn fwy na 0 ond llai na 5. Mae niferoedd athrawon wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.

**Tabl 1.2: Athrawon ysgolion canol sy'n addysgu neu'n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, Tachwedd 2023 a'r newid ers 2020**

| Athrawon ysgolion canol | Addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y swydd bresennol | Yn gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn gwneud yn y swydd bresennol | Ddim yn gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg | Yn addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn unig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | **770 (▲165)** | **75 (▼20)** | **735 (▲255)** | **135 (▲35)** | **1,715 (▲435)** |
| Ynys Môn | . | . | . | . | **.** |
| Gwynedd | 70 (▼5) | 0 (▶0) | * | 0 (▶0) | **70 (▼5)** |
| Conwy | . | . | . | . | **.** |
| Sir Ddinbych | 10 (▲5) | 5 (▼<5) | 50 (▲5) | 20 (▲<5) | **85 (▲10)** |
| Sir y Fflint | . | . | . | . | **.** |
| Wrecsam | . | . | . | . | **.** |
| Powys | 80 (▲20) | 5 (▼25) | 40 (▲40) | * | **130 (▲40)** |
| Ceredigion | 120 (▼5) | 5 (▲<5) | 10 (▼<5) | * | **145 (▼5)** |
| Sir Benfro | 110 (▲75) | * | 25 (▲10) | 5 (▶0) | **145 (▲80)** |
| Sir Gaerfyrddin | . | . | . | . | **.** |
| Abertawe | . | . | . | . | **.** |
| Castell-nedd Port Talbot | 100 (▲<5) | 15 (▲<5) | 120 (▲<5) | 20 (▼<5) | **255 (▲<5)** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | . | . | . | . | **.** |
| Bro Morgannwg | 90 (▲15) | 10 (▲10) | 80 (▲80) | 0 (▶0) | **180 (▲105)** |
| Rhondda Cynon Taf | 115 (▼10) | 5 (▼5) | 160 (▶0) | 5 (▼<5) | **285 (▼15)** |
| Merthyr Tudful | * | 5 (▲5) | 30 (▲30) | 20 (▲20) | **60 (▲60)** |
| Caerdydd | . | . | . | . | **.** |
| Caerffili | * | * | 45 (▲10) | * | **55 (▲5)** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 5 (▼<5) | 5 (►0) | 110 (▲15) | 40 (►0) | **165 (▲15)** |
| **Torfaen** | 60 (▲60) | * | 0 (►0) | 0 (►0) | **60 (▲60)** |
| **Sir Fynwy** | * | 5 (▲5) | 65 (▲65) | 10 (▲10) | **85 (▲85)** |
| **Casnewydd** | * | * | 45 (▲10) | * | **55 (▲5)** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu ysgolion

* = ffigurau yn fwy na 0 ond llai na 5. Mae niferoedd athrawon wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.

**Tabl 1.3: Athrawon uwchradd sy’n addysgu neu’n gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg, Tachwedd 2023 a’r newid ers 2020**

| Athrawon uwchradd | Addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg yn y swydd bresennol | Yn gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg ond ddim yn gwneud yn y swydd bresennol | Ddim yn gallu addysgu/gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg | Yn addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn unig | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymru | **2,425 (▼120)** | **695 (▼105)** | **7,370 (▼80)** | **20 (▲15)** | **10,505 (▼290)** |
| Ynys Môn | 195 (▲<5) | 20 (▲<5) | 35 (▲<5) | 0 (►0) | **255 (▲10)** |
| Gwynedd | 390 (▲15) | 25 (▲5) | 65 (▲10) | 0 (►0) | **480 (▲25)** |
| Conwy | 120 (▲<5) | 55 (▲10) | 280 (▼10) | * | **455 (►0)** |
| Sir Ddinbych | 155 (▲10) | 20 (▼<5) | 215 (▼5) | 0 (►0) | **390 (▼<5)** |
| Sir y Fflint | 60 (▼<5) | 45 (▼20) | 480 (▼15) | 5 (▲5) | **585 (▼30)** |
| Wrecsam | 75 (▼<5) | 30 (▼10) | 300 (▲5) | 0 (►0) | **405 (▼5)** |
| Powys | 45 (▼25) | 25 (▼10) | 295 (▼20) | 0 (►0) | **365 (▼55)** |
| Ceredigion | 85 (▼5) | 30 (▼<5) | 65 (▼<5) | 0 (►0) | **180 (▼10)** |
| Sir Benfro | 25 (▼50) | 20 (▼<5) | 260 (▲<5) | * | **310 (▼50)** |
| Sir Gaerfyrddin | 340 (▲25) | 60 (▼30) | 305 (▲10) | * | **705 (▲<5)** |
| Abertawe | 165 (▲15) | 75 (▼10) | 670 (▲20) | * | **905 (▲30)** |
| Castell-nedd Port Talbot | 15 (▼5) | 30 (▲<5) | 235 (▼<5) | 0 (►0) | **285 (▼<5)** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 90 (▲5) | 25 (▼10) | 495 (▲15) | 0 (►0) | **610 (▲15)** |
| Bro Morgannwg | 15 (▼5) | 30 (►0) | 380 (▼80) | 5 (▲5) | **430 (▼80)** |
| Rhondda Cynon Taf | 145 (▼15) | 50 (▼<5) | 535 (▲15) | 0 (▼<5) | **730 (▼10)** |
| Merthyr Tudful | 10 (▼<5) | 10 (▼5) | 120 (▼30) | 0 (►0) | **135 (▼40)** |
| Caerdydd | 270 (▼5) | 60 (▼10) | 1,075 (▲50) | * | **1,410 (▲35)** |
| Caerffili | 145 (▼5) | 35 (▼10) | 445 (▲10) | * | **625 (▼<5)** |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Blaenau Gwent** | 5 (▼<5) | * | 80 (▲10) | 0 (►0) | **90 (▲10)** |
| **Torfaen** | 10 (▼60) | 20 (▲<5) | 270 (▲15) | 0 (►0) | **300 (▼45)** |
| **Sir Fynwy** | 10 (▼5) | * | 225 (▼65) | 0 (►0) | **235 (▼75)** |
| **Casnewydd** | 65 (▲10) | 25 (▼10) | 545 (▼15) | 0 (►0) | **635 (▼15)** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu ysgolion

* = ffigurau yn fwy na 0 ond llai na 5. Mae niferoedd athrawon wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.

## Tabl 1.4: Athrawon yn ôl awdurdod lleol a gallu yn y Gymraeg, Tachwedd 2023 a’r newid ers 2020

| Awdurdod Lleol | Gallu yn y Gymraeg | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Dim sgiliau / Mynediad | Sylfaen | Canolradd | Uwch / Hyfedredd | Cyfanswm (a) |
| Cymru | **10,830 (▲350)** | **4,815 (▲85)** | **1,990 (▼65)** | **8,070 (▼15)** | **25,740 (▼50)** |
| Ynys Môn | 30 (▲<5) | 10 (▼<5) | 20 (▲<5) | 475 (▲<5) | **535 (▲10)** |
| Gwynedd | 50 (▲10) | 20 (▼<5) | 25 (►0) | 920 (▲50) | **1,020 (▲10)** |
| Conwy | 255 (▼5) | 140 (▼10) | 80 (▼<5) | 470 (▲10) | **950 (▲<5)** |
| Sir Ddinbych | 305 (▲25) | 160 (▼5) | 80 (▲<5) | 365 (▲<5) | **910 (▲5)** |
| Sir y Fflint | 530 (▼30) | 355 (▲25) | 150 (▼20) | 245 (▼25) | **1,285 (▼20)** |
| Wrecsam | 465 (▲10) | 285 (▼5) | 90 (▼10) | 250 (▼10) | **1,090 (▲55)** |
| Powys | 395 (▼10) | 215 (▲15) | 120 (▲<5) | 320 (▲<5) | **1,045 (▼15)** |
| Ceredigion | 55 (▲<5) | 30 (▲5) | 40 (▲5) | 445 (▼15) | **570 (▼50)** |
| Sir Benfro | 385 (▲60) | 180 (▲35) | 90 (▼5) | 305 (▲25) | **955 (▲<5)** |
| Sir Gaerfyrddin | 290 (▼15) | 200 (▲<5) | 125 (▲10) | 935 (▲10) | **1,550 (▲5)** |
| Abertawe | 950 (▲45) | 385 (▼5) | 150 (▼15) | 445 (▲10) | **1,935 (▼10)** |
| Castell-nedd Port Talbot | 480 (▼10) | 245 (▼10) | 80 (▼15) | 285 (▲<5) | **1,090 (▼5)** |
| Pen-y-bont ar Ogwr | 625 (▼<5) | 325 (►0) | 95 (►0) | 215 (▼<5) | **1,260 (▼5)** |
| Bro Morgannwg | 750 (▼55) | 130 (▲15) | 180 (▼5) | 280 (▲20) | **1,340 (▼25)** |
| Rhondda Cynon Taf | 895 (▼<5) | 345 (▲30) | 140 (▼20) | 575 (▼55) | **1,955 (▲<5)** |
| Merthyr Tudful | 215 (▼<5) | 100 (▼5) | 50 (▼<5) | 85 (▼10) | **450 (▼<5)** |
| Caerdydd | 1,790 (▲170) | 475 (▲15) | 125 (▼<5) | 710 (▼35) | **3,100 (▼15)** |
| Caerffili | 660 (▼5) | 330 (▼<5) | 100 (▼5) | 340 (▼25) | **1,425 (▼5)** |
| Blaenau Gwent | 280 (▼10) | 140 (▲20) | 25 (▲10) | 45 (▲<5) | **505 (▼<5)** |
| Torfaen | 325 (▼15) | 180 (▲15) | 70 (▼<5) | 150 (▲15) | **740 (▲<5)** |
| Sir Fynwy | 355 (▼15) | 170 (▼10) | 60 (▲5) | 60 (▲10) | **640 (▲<5)** |
| Casnewydd | 745 (▼40) | 405 (▼20) | 105 (▲<5) | 160 (▼<5) | **1,415 (▲10)** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad blynyddol o'r gweithlu ysgolion

* = ffigurau yn fwy na 0 ond llai na 5. Mae niferoedd athrawon wedi'u talgrynnu i'r 5 agosaf.

(a) Yn cynnwys athrawon nad oedd gwybodaeth am eu sgiliau iaith Gymraeg ar gael.

## Crynodeb o CSGA awdurdodau lleol a’r goblygiadau o ran capasiti athrawon

Daw’r data a ddefnyddir isod o CSGA awdurdodau lleol, lle roedd ar gael. Pan nad oedd y data ar gael yn y cynlluniau, defnyddir y targedau gwreiddiol a bennwyd yn y canllawiau ar CSGA. Cyfrifir y cynnydd targed gan ddefnyddio data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion 2019 i 2020 gan ei fod yn sail i’r targedau gwreiddiol a osodwyd gan Lywodraeth Cymru.

| | |
|---|---|
| **Ynys Môn** | • Cynnal lefelau staffio a hyfforddi staff i ddatblygu sgiliau Cymraeg neu fagu hyder i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Gwynedd** | • Cynnal lefelau staffio a hyfforddi staff i ddatblygu sgiliau Cymraeg neu fagu hyder i ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Conwy** | • Symud ysgolion ar hyd continwwm - dim goblygiadau o ran cynyddu nifer yr athrawon cynradd yn y sir, ond angen cynnal lefelau staffio presennol.<br>• Goblygiadau ar nifer yr athrawon uwchradd yn y cyfnod wedi 2031 - hyd at 152 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |
| **Sir Ddinbych** | • Symud ysgolion ar hyd continwwm – dim goblygiadau o ran cynyddu nifer yr athrawon cynradd yn y sir, ond angen cynnal lefelau staffio presennol.<br>• Ehangu darpariaeth cyfrwng Cymraeg mewn dwy ysgol uwchradd erbyn 2031. Angen ystyried lefel sgiliau iaith yr athrawon sydd eisoes yn addysgu yn yr ysgolion hynny a chynllunio i gynyddu nifer yr athrawon.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon uwchradd yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 145 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |
| **Sir y Fflint** | • Targed o 150 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol fesul blwyddyn ysgol erbyn 2031 – cyfwerth â 5 dosbarth ychwanegol. Angen o leiaf 2 athro cynradd ychwanegol o fewn y sir erbyn 2023 gan gynyddu’n raddol erbyn 2031.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon uwchradd yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 150 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |

| | |
|---|---|
| **Wrecsam** | • Targed o rhwng 125 a 190 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol fesul blwyddyn ysgol erbyn 2031 – cyfwerth â rhwng 4 a 6 dosbarth ychwanegol. Angen o leiaf 6 athro cynradd ychwanegol o fewn y sir gan gynyddu'n raddol erbyn 2031.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon uwchradd yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 212 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |
| **Powys** | • Targed o 211 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol fesul blwyddyn ysgol erbyn 2031 – cyfwerth â rhwng 7 dosbarth. Angen o leiaf 7 athro cynradd ychwanegol o fewn y sir erbyn 2031 gan gynyddu'n raddol wrth i'r ddarpariaeth dyfu.<br>• Mae goblygiadau staffio o ganlyniad i newid categori ieithyddol Ysgol Bro Caereinion a bydd hyn yn dwysau os bydd newid i gategori ieithyddol Ysgol Calon Cymru yn Llanfair-ym-Muallt.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon uwchradd yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 211 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |
| **Ceredigion** | • Targed o rhwng 65 a 90 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol bob blwyddyn erbyn 2031 – cyfwerth â thua 2 i3 dosbarth. Symud ysgolion ar hyd continwwm – dim goblygiadau o ran cynyddu nifer yr athrawon cynradd yn y sir, ond angen cynnal lefelau staffio presennol ac uwch-sgilio athrawon yn y Gymraeg.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon uwchradd yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 90 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol.<br>• Angen gweithio gyda'r ysgolion uwchradd yn ystod 5 mlynedd cyntaf y cynllun i wella sgiliau ieithyddol neu gynyddu capasiti athrawon sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn cynnig mwy o'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **Sir Benfro** | • Targed o rhwng 82 a 129 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol bob blwyddyn erbyn 2031 – cyfwerth â rhwng 3 a 4 dosbarth. Angen o leiaf 3 athro cynradd ychwanegol o fewn y sir o fis Medi 2023 neu bod athrawon cyfredol yn cael eu hyfforddi i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg wrth i gategori'r ysgolion newid.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon uwchradd yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 129 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |

| | |
|---|---|
| **Sir Gaerfyrddin** | • Targed o rhwng 194 a 269 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol bob blwyddyn erbyn 2031 – cyfwerth â rhwng 6 a 9 dosbarth. Symud ysgolion ar hyd continwwm – dim goblygiadau o ran cynyddu nifer yr athrawon cynradd yn y sir, ond angen cynnal lefelau staffio presennol ac uwch-sgilio yn y Gymraeg.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon uwchradd yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 269 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |
| **Abertawe** | • Targed o rhwng 117 a 205 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol erbyn 2031 gan dargedu lleoedd gweigion mewn ysgolion a sefydlu 3 ysgol gynradd – cyfwerth â rhwng 4 –a7 dosbarth. Gallai dargedu lleoedd gweigion olygu na fyddai angen mwy o athrawon o reidrwydd ond mae hyn yn ddibynnol ar ddosbarthiad y lleoedd gweigion ar draws y sir. Angen recriwtio o leiaf 3 athro cynradd ychwanegol o fewn y sir o fis Medi 2026 a chynyddu'n raddol.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon uwchradd yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 205 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |
| **Castell-nedd Port Talbot** | • Targed o 208 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol bob blwyddyn ysgol erbyn 2031. Angen tua 3 o athrawon cynradd ychwanegol i gychwyn gan gynyddu'n raddol.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon uwchradd yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 208 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |
| **Pen-y-bont ar Ogwr** | • Targed o 146 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol erbyn 2031 – cyfwerth â thua 5 dosbarth. Angen cychwyn gydag o leiaf 2 athro cynradd ychwanegol yn 2024 gan gynyddu'n raddol.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon uwchradd yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 146 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |
| **Bro Morgannwg** | • Targed o 151 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol erbyn 2031 – cyfwerth â thua 5 dosbarth. Angen cychwyn gyda o leiaf 2 athro cynradd ychwanegol erbyn 2026 gan gynyddu'n raddol.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon uwchradd yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 151 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |

| | |
|---|---|
| **Rhondda Cynon Taf** | • Targed o 218 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol erbyn 2031 – cyfwerth â thua 7 dosbarth. Angen cychwyn gyda 3 athro cynradd ychwanegol erbyn 2026 gan gynyddu'n raddol.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon uwchradd yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 218 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |
| **Merthyr Tudful** | • Targed o rhwng 55 a 85 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol erbyn 2031. Angen cynnydd graddol i nifer yr athrawon cynradd.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon uwchradd mewn ysgolion o fewn siroedd cyfagos yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 85 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |
| **Caerdydd** | • Targed o rhwng 273 a 439 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol erbyn 2031. Cychwyn gydag o leiaf 5 athro cynradd ychwanegol erbyn 2026 gan gynyddu'n raddol.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon uwchradd yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 439 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |
| **Caerffili** | • Targed o rhwng 161 a 241 o ddysgwr 5 oed ychwanegol erbyn 2031 – cyfwerth â rhwng 5-8 dosbarth. Angen cynnydd graddol i nifer yr athrawon cynradd.<br>• Goblygiadau ar nifer yr athrawon uwchradd yn y cyfnod wedi 2031 - hyd at 241 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |
| **Blaenau Gwent** | • Targed o 52 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol erbyn 2031 – cyfwerth â rhwng 1 i 2 ddosbarth.. Angen dyblu nifer yr athrawon cynradd i 20 dros y 10-mlynedd.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon uwchradd mewn ysgolion o fewn siroedd cyfagos yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 52 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |
| **Torfaen** | • Targed o 43 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol erbyn 2031 – cyfwerth â thua 2 dosbarth. Angen cynyddu nifer yr athrawon cynradd yn raddol gan gychwyn gydag o leiaf 2.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon ysgol uwchradd o fewn y sir yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 43 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |

| | |
|---|---|
| **Sir Fynwy** | • Targed o 88 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol erbyn 2031 – cyfwerth â thua 3 dosbarth. Angen cynyddu nifer yr athrawon cynradd yn raddol gan gychwyn gydag o leiaf 2.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon uwchradd mewn ysgolion o fewn siroedd cyfagos yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 83 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |
| **Casnewydd** | • Targed o 107 o ddysgwyr 5 oed ychwanegol erbyn 2031 – cyfwerth â rhwng 3 a 4 dosbarth. Angen cynyddu nifer yr athrawon cynradd yn raddol gan gychwyn gydag o leiaf 1 yn 2026.<br>• Goblygiadau o ran nifer yr athrawon ysgol uwchradd o fewn y sir yn y cyfnod wedi 2031 – hyd at 107 o ddysgwyr ychwanegol fesul blwyddyn ysgol. |

Mae'r crynodeb yn dangos yn glir y bydd y twf yn nifer y dysgwyr mewn addysg cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog yn y sector cynradd yn digwydd yn gynnar yn ystod y cyfnod 10-mlynedd, a bydd angen i nifer yr athrawon cynradd gynyddu'n raddol dros y cyfnod o 10-mlynedd. Fodd bynnag, pan fydd y twf yn cyrraedd yr ysgolion uwchradd, bydd yr angen am athrawon ychwanegol ar unwaith a bydd angen cynllunio gofalus.